Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Amodau a thelerau safonol y grant

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Diffiniadau

Mae "ni" ac "ein" yn cyfeirio at y sefydliad trydydd sector sy'n derbyn y grant sydd wedi'i rwymo gan yr amodau a'r telerau hyn.

Mae "chi" ac "eich" yn golygu'r Gronfa Loteri Fawr ac mae'n cynnwys ei chyflogedigion, ei hasiantau a'i chynrychiolwyr.

Mae'r "grant" yn golygu'r grant a ddyfarnwyd i ni ar gyfer y prosiect, fel a nodir yn y llythyr cynnig grant a anfonwyd atom ni oddi wrthych.

Mae'r "prosiect" yn golygu'r prosiect yr ydych yn rhoi'r grant i ni ar ei gyfer fel a nodir yn ein ffurflen gais ac unrhyw ddogfennau ategol, a/neu fel yr amrywir gan y cytundeb grant.

Mae "asedau'r prosiect" yn golygu unrhyw eiddo (p'un ai'n wirioneddol neu'n gludadwy) sy'n cael ei adnewyddu, ei wella neu ei greu yn ystod y prosiect.

Mae'r "cytundeb grant", rydym wedi'i dderbyn a'i lofnodi'n golygu telerau rydych wedi cytuno arnynt i roi grant neu grantiau i ni, ac yn cynnwys ac yn ymgorffori'r amodau a'r telerau safonol hyn a'r llythyr cynnig grant ynghyd ag unrhyw amodau eraill rydym wedi cytuno iddynt.

1 Yn gyffredinol

1.1 Byddwn yn defnyddio'r grant yn gyfan gwbl ar gyfer y prosiect. Ymrwymwn i gyflwyno'r prosiect a byddwn yn cadw unrhyw ran o'r grant sydd heb ei ddefnyddio ar ymddiriedaeth i chi bob amser, a byddwn yn ad-dalu unrhyw grant (gan gynnwys unrhyw grant heb ei ddefnyddio) i chi ar unwaith ar orchymyn.

1.2 Yn ystod cyfnod y grant byddwn yn gweithredu mewn modd teg ac agored heb wahaniaethu yn erbyn hil, crefydd, oedran, anabledd, rhyw na thueddfryd rhywiol, a chan gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol.

1.3 Byddwn yn sicrhau bod pob aelod o'n corff llywodraethu nawr ac yn y dyfodol yn derbyn copi o'r telerau ac amodau hyn tra pery'r cytundeb grant mewn grym.

1.4 Byddwn yn sicrhau y byddwn bob amser, tra pery'r cytundeb grant mewn grym, wedi ein cyfansoddi'n gywir ac yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol, a bod derbyn y grant a chyflawni'r prosiect o fewn cwmpas ein dogfennau llywodraethu, a byddwn yn darparu barn gyfreithiol gan ein cyfreithwyr yn cadarnhau hyn.

1.5 Ymrwymwn na fyddwn yn elwa'n ariannol o ddatblygu'r prosiect ac y bydd unrhyw wargedion refeniw sy'n deillio o weithgareddau masnachu'n cael eu hail-fuddsoddi yn y prosiect.

2 Y prosiect

2.1 Byddwn yn cael cytundeb ysgrifenedig gennych cyn gwneud unrhyw newid i'r prosiect neu ei enw, ei nodau, ei strwythur, ei gyflwyniad, ei ganlyniadau, ei gyfnod neu ei berchenogaeth.

2.2 Byddwn yn cychwyn ar y prosiect o fewn chwe mis o ddyddiad y cytundeb grant. Os na allwn gwrdd â'r dyddiad hwn, byddwn yn ysgrifennu atoch yn rhoi rhesymau dros yr oedi ac yn gofyn am estyniad

2.3 Cytunwn i wneud cynnydd boddhaol gyda'r prosiect a'i gwblhau ar amser neu o fewn cyfnod rhesymol os nad ydych wedi pennu terfyn amser.

2.4 Ni fyddwn yn defnyddio'r grant i dalu am unrhyw ymrwymiadau gwario a wnaed gennym cyn dyddiad y cytundeb grant.

2.5 Dywedwn wrthych am unrhyw gynnig o arian ar gyfer y prosiect gan unrhyw un arall ar unrhyw adeg yn ystod y prosiect.

2.6 Os gwariwn lai na'r grant cyfan ar y prosiect, byddwn yn dychwelyd y swm sydd heb ei wario i chi yn ddiymdroi.

2.7 Byddwn yn cydnabod y grant yn gyhoeddus fel y bo'n briodol ac yn ymarferol. Byddwn yn dilyn eich canllawiau brandio a chyhoeddusrwydd bob amser. Byddwn yn cydnabod eich cefnogaeth mewn unrhyw ddogfennau cyhoeddedig sy'n cyfeirio at y prosiect, gan gynnwys cyfrifon ac adroddiadau blynyddol cyhoeddus, neu mewn cyflwyniadau cyhoeddus ysgrifenedig neu lafar am y prosiect.

2.8 Cydsyniwn drwy hyn i unrhyw gyhoeddusrwydd ynghylch y grant a'r prosiect y gallwch ofyn amdano o dro i dro. Gallwch gynnal unrhyw ffurf ar gyhoeddusrwydd a marchnata i hyrwyddo dyfarniad y grant fel y gwelwch yn briodol. Cytunwn i wneud beth bynnag y gofynnwch amdano'n rhesymol er mwyn cynorthwyo gydag unrhyw ffurf ar gyhoeddusrwydd a marchnata, gan gynnwys unrhyw weithgareddau'n gysylltiedig â'r wasg neu'r cyfryngau

2.9.1 Byddwn yn gweithredu o dan yr egwyddorion a nodir yng nghynllun Iaith Gymraeg y Gronfa Loteri Fawr ac yn benodol byddwn yn:

- cynhyrchu'r holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd megis taflenni, arwyddion a chynnwys ar y we'n ddwyieithog os ydynt yn cael eu hariannu gan y Gronfa Loteri Fawr; ac yn
- hysbysebu'n ddwyieithog unrhyw swyddi a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr; ac yn
- ystyried anghenion ieithyddol y gymuned drwy gydol cyfnod y grant.

2.9.2 Wrth ddarparu'r gwasanaethau neu gyflawni gweithgareddau'r prosiect, byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac yn benodol, byddwn yn gweithredu'n unol â'r wybodaeth rydym wedi'i chyflenwi yn ein ffurflen gais (neu wybodaeth o'r fath a ddiwygiwyd gyda'ch cytundeb).

2.10 Dywedwn wrthych ar unwaith am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a ddarparwyd gennym a byddwn yn gofalu fod yr wybodaeth sydd gennych yn wir ac yn gyfredol bob amser.

2.11 Wrth i ni reoli'r holl wybodaeth bersonol, byddwn yn bodloni gofynion Deddf Diogelu Data 1998. Dywedwn wrthych ar unwaith os bydd unrhyw un o'n prif gysylltiadau'n newid.

2.12 Cytunwn i fodloni'r holl gyfreithiau sy'n rheoleiddio'r modd y gweithredwn, y gwaith a gyflawnir gennym, y staff a gyflogwn neu'r nwyddau a brynwn, gan gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- deddfwriaeth gyflogaeth
- deddfwriaeth iechyd a diogelwch
- deddfwriaeth diogelu plant ac oedolion diamddiffyn
- deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Byddwn yn sicrhau bod gennym bolisi cyfle cyfartal sy'n cael ei roi ar waith a'i adolygu'n rheolaidd er mwyn ein helpu i gydymffurfio â'r holl ddeddfau ac arfer da perthnasol drwy gydol cyfnod y cytundeb grant. Byddwn yn dod o hyd i bob cymeradwyaeth a thrwydded a fynnir gennych chi neu gan y gyfraith.

2.13 Os yw ein prosiect yn ymwneud â gwaith gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion diamddiffyn ("pobl ddiamddiffyn"), byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau eu diogelwch. Byddwn yn cael caniatâd ysgrifenedig y gofalwr neu'r gwarcheidwad cyfreithiol cyn cael unrhyw gyswllt uniongyrchol ag unrhyw berson diamddiffyn. Mae gennym bolisi ysgrifenedig priodol a set o weithdrefnau yr ydym yn eu rhoi ar waith, gan gynnwys gweithdrefnau gwirio cefndir a datgeliadau'r holl gyflogedigion, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr neu gontractwyr a fydd yn goruchwylio, gofalu am, neu fel arall, cael cyswllt uniongyrchol sylweddol gyda phobl ddiamddiffyn gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol.

2.14 Os ydym yn elusen, byddwn yn cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau os aiff ein hincwm dros eu ffigwr eithrio lleiaf.

2.15 Mae gennym systemau ar gyfer atal twyll, a byddwn yn eu cynnal.

2.16 Mae hawl gennych i atgynhyrchu unrhyw ran o'n gwybodaeth ymgeisio neu wybodaeth ddilynol a gyflwynir gennym ar eich cyfer at unrhyw ddiben fel y gwelwch yn briodol.

3 Ein Sefydliad

3.1 Byddwn yn cael cytundeb ysgrifenedig gennych cyn:

- newid ein dogfen lywodraethu ynglŷn â'n: nodau, ein taliadau i aelodau ac aelodau ein corff llywodraethu, rhannu ein hasedau (p'un a yw ein sefydliad wedi'i ddiddymu neu beidio), neu dderbyn unrhyw aelodau newydd; neu
- drosglwyddo ein hasedau i gyd, neu ran sylweddol ohonynt i, neu gyfuno neu aruno ag, unrhyw gorff arall, gan gynnwys cwmni a sefydlir gennym.

3.2 Ysgrifennwn atoch cyn gynted ag y bo modd os caiff unrhyw hawliadau cyfreithiol eu gwneud neu eu bygwth yn ein herbyn a/neu a fyddai'n cael effaith niweidiol ar y prosiect yn ystod cyfnod y grant (gan gynnwys unrhyw hawliadau a wneir yn erbyn aelodau ein corff llywodraethu neu ein staff).

3.3 Dywedwn wrthych yn ysgrifenedig cyn gynted â phosib am unrhyw ymchwiliad a gynhelir gan yr Heddlu, y Comisiwn Elusennau, Cyllid a Thollau EM neu unrhyw gorff rheoleiddio arall .

3.4 Byddwn ar gael ar gyfer cyfarfodydd â chi, a chaniatawn fynediad llawn a rhydd i'n cofnodion ym mha fodd bynnag ac ym mha le bynnag y cânt eu cadw, ac i unrhyw un o'n swyddfeydd neu adeiladau, i chi, y

rhai sy'n gweithredu ar eich rhan, Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol neu'r Archwiliwr Cyffredinol yng Nghymru (ac yn achos yr olaf, derbyniwn yr ystyrir bod y cytundeb grant yn gytundeb rhyngom ni â Gweinidogion Cymru at ddibenion paragraff 18 (3) Atodlen 3 Deddf Llywodraeth Cymru 2008).

3.5 Rhown wybod i chi os bydd ein corff llywodraethu yn gostwng islaw tri aelod a byddwn yn ei gynyddu i dri aelod o leiaf cyn gynted â phosib.

4 TAW

4.1 Cydnabyddwn nad yw'r grant yn ystyriaeth ar gyfer unrhyw gyflenwad trethadwy at ddibenion TAW gennym ni i chi. Deallwn nad yw eich rhwymedigaeth yn ymestyn i dalu unrhyw symiau i ni mewn perthynas â TAW yn ychwanegol at y grant, a bod y grant sy'n cael ei roi gennych yn cynnwys TAW.

4.2 Cytunwn i ad-dalu i chi ar unwaith unrhyw TAW a adenillwn pa un ai drwy wrthgyfrifiad, credyd neu ad-daliad i'r graddau bod unrhyw gost TAW o'r fath yn gynwysedig yn y grant.

4.3 Fe'ch hysbyswn ar unwaith os daw unrhyw TAW anadferadwy sy'n cael ei hawlio o dan y grant, yn adferadwy.

4.4 Byddwn yn cadw cofnodion cywir a chyfredol mewn perthynas â TAW, a byddwn yn gwneud y cyfryw gofnodion ar gael i chi eu harchwilio, a rhown gopïau i chi pan ofynnwch amdanynt.

4.5 Os ydych wedi ariannu'r holl gostau TAW ar gyfer ein prosiect, cytunwn i ad-dalu i chi ar unwaith y cyfan o'r TAW a adferwn.

4.6 Os ydych wedi ariannu cyfran o'r costau TAW ar gyfer y prosiect, cytunwn i ad-dalu i chi ar unwaith yr un gyfran o'r TAW a adferir.

5 Ein hadroddiad a'n cyfrifon blynyddol

5.1 Byddwn yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau perthnasol ynglŷn â chyflwyno cyfrifon, archwilio cyfrifon, adroddiadau blynyddol a dychweliadau blynyddol.

5.2 Byddwn yn cydnabod eich grant yn ein hadroddiadau a'n cyfrifon blynyddol dros gyfnod y prosiect.

5.3 Byddwn yn dangos eich grant a'r gwariant cysylltiedig fel cronfa gyfyngedig o dan y disgrifiad 'Grant y Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol' yng nghyfrifon blynyddol ein sefydliad. Byddwn yn nodi arian ac asedau heb eu gwario mewn perthynas â'r grant ar wahân yn ein cofnodion cyfrifo.

5.4 Anfonwn gopi atoch o'n cyfrifon blynyddol cyn gynted ag y cânt eu cymeradwyo yn unol â'n dogfen lywodraethu a beth bynnag cyn pen deng mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer bob blwyddyn y gwneir taliadau grant. Bydd y cyfrifon yn cael eu llofnodi gan aelod o'n pwyllgor rheoli a'u harchwilio'n allanol neu'u gwerthuso'n annibynnol fel y bo'n briodol ar gyfer ein sefydliad.

5.5 Byddwn yn cadw cyfrifon a chofnodion cywir a chyfredol am saith mlynedd o leiaf ar ôl terfynu ein grant, gan gynnwys cyfrifon cryno o elw a cholled a chyfrifon rheoli, cofnodion ac anfonebau personél a chyflogres, sy'n dangos y modd y mae'r grant wedi cael ei ddefnyddio. Byddwn yn gwneud y cofnodion ariannol hyn ar gael i chi eu harchwilio, a rhown gopïau i chi.

5.6 Byddwn yn adrodd yn gyson ac yn llawn i holl aelodau ein corff llywodraethu ar sefyllfa ariannol ein sefydliad, a byddwn yn rhoi gweithdrefnau ar waith i osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n codi o ran darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae eu hangen i gyflwyno'r prosiect.

6 Monitro

6.1 Byddwn yn monitro cynnydd y prosiect ac yn cwblhau adroddiadau cyson fel y gofynnwch amdanynt, gan ddefnyddio'r ffurflenni a anfonwch atom.

6.2 Anfonwn atoch unrhyw wybodaeth bellach y gofynnwch amdano ynglŷn â'r prosiect neu ein sefydliad a'i weithgareddau, ac unrhyw wybodaeth arall y gofynnwch amdano o dro i dro. Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth hon i fonitro'r prosiect a gwerthuso'r rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

6.3 Byddwn yn llenwi adroddiad terfynol ar y prosiect gan ddefnyddio'r ffurflen a anfonwch atom. Mae'n rhaid i ni gwblhau'r adroddiad hwn mewn ffordd sy'n foddhaol i chi, ac anfon cyfrifon blynyddol am y cyfnod llawn atoch.

6.4 Dywedwn wrthych ar unwaith yn ysgrifenedig am unrhyw beth sy'n oedi neu'n peryglu cwblhau'r prosiect yn sylweddol, neu'n ei wneud yn annhebygol.

6.5 Byddwn yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion rhesymol sydd gennych o ran ymweliadau safle (gan gynnwys ymweliadau â safleoedd prosiectau unigol), ymweliadau cydymffurfio a chyfarfodydd â'n swyddogion neu'n hasiantau unrhyw bryd yn ystod prosiect neu ar ôl ei gwblhau neu yn ystod y cyfnod monitro asedau.

7 Grantiau ar gyfer Cyflogau

7.1 Byddwn yn sicrhau bod gennym bolisïau a gweithdrefnau cyflogaeth priodol bob amser. Talwn sylw i gydraddoldeb yn y broses recriwtio a dethol a'r angen am sicrhau cydbwysedd staff priodol yn ein sefydliad.

7.2 Os yw'r grant ar gyfer cyflog swydd newydd, byddwn yn hysbysebu'r swydd yn allanol, gan ddefnyddio cyfryngau priodol (gan gynnwys cyfryngau

a allai ddenu grwpiau difreintiedig). Mae'n rhaid i ni anfon copi o destun pob hysbyseb atoch o fewn cyfnod rhesymol cyn rhoi'r cyfryw hysbyseb ar led, a fydd yn unol â phob arfer gorau cyfredol, a byddwn yn cydnabod mai chi yw cyllidwr y swydd. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw ail-hysbyseb. Mae'n rhaid i ni gadw'r swydd-ddisgrifiad, rhestr o'r cyhoeddiadau y gosodwyd yr hysbysebion ynddynt, a chopi o'r llythyr penodi, a'u hanfon atoch os gofynnwch amdanynt.

7.3 Ni fyddwch yn talu grantiau ar gyfer cyflogau nes ein bod ni wedi rhoi enwau'r staff sydd i'w cyflogi, eu cyflogau a'u dyddiad cychwyn, ac, os yw'n briodol, eu dyddiad gorffen, i chi.

7.4 Byddwn yn cadw'r holl brif gofnodion ariannol gan gynnwys cofnodion personél a chyflogres y staff a ariennir gennych am saith mlynedd wedi i'r grant ddod i ben. Byddwn yn llenwi'r holl ddychweliadau statudol ar gyfer cyflogedigion ac yn gwneud yr holl daliadau perthnasol i dalu'u pensiynau a'u didyniadau cyflog, megis treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.

8 Grantiau ar gyfer eiddo

8.1 Byddwn yn cymryd camau rhesymol i gael gwerth am arian wrth brynu nwyddau a gwasanaethau mewn perthynas ag unrhyw brosiect drwy ddod o hyd i ddyfynbrisiau neu gymhwyso tendro cystadleuol. Os defnyddir unrhyw ran o'r grant i brynu unrhyw eitemau neu wasanaethau cyfalaf neu gyfres o eitemau neu wasanaethau cyfalaf cysylltiedig sy'n costio mwy na £10,000, bydd yr archeb yn destun tendr cystadleuol. Os oes rhesymau da pam na allwn dendro, byddwn yn cael caniatâd gennych ymlaen llaw. Deallwn fod rhaid i gyrff cyhoeddus fodloni deddfwriaeth berthnasol y DU ac Ewropeaidd ar gaffael, ynghyd â darpariaethau Cytundeb Caffael Cyffredinol Sefydliad Masnach y Byd.

8.2 Deallwn a derbyniwn y byddwch yn gofyn am sicrwydd o ran asedau'r prosiect a ariennir gan y grant. Fel arfer bydd hyn yn bridiant cyfreithiol yn eich ffurflen safonol.

8.3 Byddwn yn sicrhau bob amser bod gennym y pŵer cyfreithiol o dan ein dogfennau llywodraethu i gyflawni'r prosiect a gweithredu'r dogfennau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r grant Ymrwymwn y bydd ein dogfennau llywodraethu'n sicrhau na fydd unrhyw unigolyn yn elwa yn achos gwerthu, dirwyn i ben neu ddiddymu ein sefydliad, ac y caiff unrhyw asedau sy'n weddill ar ôl gwerthu, dirwyn i ben neu ddiddymu'n cael eu trosglwyddo i sefydliad arall sydd â gwrthrychau tebyg neu i ryw gwrthrych elusennol arall.

8.4 Deallwn na fyddwch yn talu unrhyw ran o'r grant cyfalaf nes eich bod wedi derbyn y dogfennau rydych wedi gofyn i ni eu cwblhau'n foddhaol.

8.5 Byddwn yn sicrhau nad oes gennym unrhyw fenthyciadau nas datgelir wedi'u sicrhau ar asedau'r prosiect. Pan fyddwn yn trefnu benthyciad sydd wedi'i sicrhau ar asedau'r prosiect a ariennir neu a ariennir yn rhannol gan y grant, byddwn yn eich hysbysu am y ffaith hon yn ddi-oed.

8.6 Deallwn a derbyniwn y canlynol:

- byddwch yn cadw naw deg pump (95) y cant o'r grant a ddyrennir i brosiect unigol nes ein bod wedi darparu'r canlynol mewn ffurflen sy'n foddhaol i chi:
  - tystiolaeth ein bod wedi derbyn unrhyw ganiatâd cynllunio, caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd rheoliadau adeiladu angenrheidiol (neu unrhyw ganiatâd neu reoliad perthnasol arall) y mae ei angen ar gyfer y gwaith adeiladu; a
  - thystiolaeth y cyflawnwyd proses dendro gystadleuol, gan dderbyn o leiaf tri dyfynbris gan dri adeiladwr annibynnol. Er mwyn i ni gomisiynu'r gwaith adeiladu o dan drefniadau tendro ymlaen llaw, byddwn yn sicrhau eu bod yn darparu tystiolaeth o'r broses dendro a gyflawnwyd i nodi contractwyr cyfredol;
- byddwch yn gwneud taliadau mewn camau dim ond pan fyddwch yn derbyn anfonebau adeiladwyr neu yn erbyn tystysgrifau interim a gwblhawyd ar ffurflenni RIBA (Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain) neu anfonebau priodol eraill;
- byddwch yn cadw pump (5) y cant o'r grant ar gyfer unrhyw waith adeiladu nes eich bod yn derbyn y dystysgrif cwblhau ymarferol. Yna byddwn yn anfon y dystysgrif cywiro diffygion, y dystysgrif derfynol, cadarnhad ein bod wedi derbyn tystysgrif gwblhau gan reoliadau adeiladu a'r dystysgrif yswiriant adeiladau;
- os ydym eisiau gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i gwmpas unrhyw waith, mae'n rhaid i ni gael caniatâd gennych cyn cychwyn;
- bydd angen cadarnhad arnoch (drwy Dystysgrif Teitl y byddwch yn ei darparu) gan ein cyfreithwyr mai ni yw'r perchennog rhydd-ddaliad neu'r prydleswr o dan brydles gofrestredig ac aseiniadwy am isafswm cyfnod o ugain (20) mlynedd heb gymal torri ac ar delerau sy'n dderbyniol i chi o ran asedau'r prosiect y mae'r grant yn ymwneud â nhw, ac y gellir defnyddio'r tir a'r adeiladau at ddiben y grant; a
- byddwch yn cadw naw deg pump (95) y cant o'r grant nes ein bod wedi darparu ffurflen sydd wedi'i chwblhau'n foddhaol i chi:
  - copi o adroddiad adolygu'r tendr. Er mwyn i ni gomisiynu'r gwaith o dan drefniadau tendro ymlaen llaw, byddwn yn darparu tystiolaeth i chi sy'n dangos bod costau wedi'u profi ar y farchnad i gadarnhau gwerth am arian;
  - crynodeb cost prosiect cyfalaf, llif arian a rhaglen wedi'u diweddaru; a

- thystiolaeth ein bod wedi sicrhau'r holl arian partneriaeth gofynnol ar gyfer y prosiect cyfalaf;
- byddwn yn sicrhau ein bod yn cyflogi gweithiwr adeiladu proffesiynol arweiniol i reoli'r broses dendro a chadarnhau bod y gwaith adeiladu wedi'i gyflawni'n briodol;
- os bydd angen gwaith adeileddol, byddwn yn sicrhau ein bod yn cyflogi peiriannydd adeileddol;
- byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio gweithwyr adeiladu proffesiynol sy'n aelodau llawn gymwysedig o gorff proffesiynol cymeradwy â'r holl ffurfiau ar yswiriant indemniad proffesiynol angenrheidiol; ac
- os daw gwaith adeiladu o dan Reoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2007, byddwn yn sicrhau ein bod wedi penodi Cydlynydd CDM.

8.7 Heb beryglu telerau unrhyw sicrwydd dros asedau'r prosiect yr ydym yn ei roi i chi'n unol â chymal 8.2, os byddwn yn gwerthu, yn gosod, yn is-osod neu fel arall yn gwaredu unrhyw un o asedau'r prosiect neu ddod â'n defnydd o asedau'r prosiect i ben at ddibenion y prosiect o fewn ugain (20) mlynedd ar ôl dyddiad y cytundeb grant, byddwn yn eich hysbysu'n briodol. Os byddwn yn gwerthu neu'n gwaredu asedau'r prosiect neu'n dod â'n defnydd o asedau'r prosiect i ben at ddibenion y prosiect, mae'n bosib y bydd rhaid i ni ad-dalu'r arian rydym wedi'i dderbyn gennych, neu ran ohono. Bydd y swm rydym yn ei ad-dalu'n uniongyrchol gymesur â'r gyfran o gostau'r prosiect a ddaeth oddi wrthych. Os byddwn yn gwerthu asedau'r prosiect a brynwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol gyda'r grant, ar ôl derbyn caniatâd gennych, bydd hyn ar werth llawn y farchnad, ac mae'n bosib y byddwn yn gosod telerau ar y trosglwyddiad neu'r gwarediad.

8.8 Byddwch yn parhau i fonitro asedau'r prosiect am ugain (20) mlynedd ar ôl dyddiad y cytundeb grant, a byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi ynglŷn â hynny ac yn rhoi cyfle i chi archwilio asedau'r prosiect yn unol â'ch gweithdrefnau safonol drwy gydol telerau'r cytundeb grant.

9 Talu grant

9.1 Byddwn yn agor cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu ar wahân a dynodedig at ddiben derbyn a gweinyddu'r grant yn unig, a byddwn yn darparu'r cyfriflenni banc neu gymdeithas adeiladu pan ofynnir amdanynt.

9.2 Byddwch yn talu'r grant trwy drosglwyddiad banc (BACS) i gyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu yn ein henw ni sy'n seiliedig yn y DU, ac sy'n gofyn am lofnodion o leiaf dau berson awdurdodedig bob tro y codir arian. Ni fyddwn yn defnyddio ATM na chardiau debyd i godi arian neu wneud taliadau o'r cyfrif hwn.

9.3 Ni fyddwch yn atebol am unrhyw golledion neu gostau (gan gynnwys taliadau banc, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) os nad ydych yn gwneud taliadau grant ar y dyddiad cytunedig. Mae'n rhaid i ni gymryd rhandaliad cyntaf y grant cyn pen chwe mis o ddyddiad y llythyr cynnig grant, neu fel arall bydd yn darfod yn awtomatig, oni chytunwch i estyniad yn ysgrifenedig.

9.4 Os talwch y grant mewn rhandaliadau dros ddwy flynedd neu fwy, bydd taliadau'r ail flwyddyn a'r blynyddoedd dilynol yn dibynnu ar eich cymeradwyaeth chi o adroddiad diwedd blwyddyn y flwyddyn flaenorol, y byddwn yn ei gwblhau ar ffurflen a ddarperir gennych cyn pen tair wythnos ar ôl diwedd y flwyddyn grant. Os na wnawn hyn, gall taliadau grant gael eu hatal

9.5 Fel arfer byddwch yn gwneud taliadau refeniw am hyd at dri mis o wariant ymlaen llaw, cyhyd â'n bod ni'n cwblhau cynllun talu boddhaol cyn i'r prosiect gychwyn, a'n bod wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig o ddyddiad cychwyn y prosiect. Pan honnir bod y grant yn cynnwys gwariant a amcangyfrifir (yn hytrach na wariant gwirioneddol), gall yr hawliad gynnwys eitemau o wariant sydd i'w gwneud yn ystod y cyfnod y mae'r hawliad yn berthnasol iddo'n unig.

9.6 Os nad ydych yn fodlon ein bod wedi bodloni pob un o delerau ein cytundeb grant, neu os oes angen gwybodaeth neu ddogfennau ychwanegol arnoch, gallwch ofyn am hyn a gohirio talu'r grant nes eich bod yn teimlo bod y telerau wedi'u bodloni neu nes y cewch yr wybodaeth a/neu'r deunyddiau rydych eu heisiau.

10 Hyd y cytundeb grant

10.1 Erys yr amodau a'r telerau hyn a'r cytundeb grant mewn grym am ba un bynnag o'r rhain yw'r cyfnod hwy:

- ugain (20) mlynedd ar ôl dyddiad y cytundeb grant; neu
- cyhyd â'n bod yn peidio â chyflawni unrhyw un o delerau ac amodau'r cytundeb grant neu fod unrhyw achos o'u torri'n parhau (mae hyn yn cynnwys unrhyw adroddiad dros ben ar wariant grant neu gyflawni'r prosiect).

10.2 Ni fydd terfynu'r grant neu ddod â'r grant i ben yn effeithio ar eich hawliau a allai fod wedi cronni o dan y cytundeb grant hyd at y dyddiad terfynu neu ddod i ben neu o ran unrhyw rwymedigaeth yn y cytundeb grant sy'n nodi'n echblyg neu drwy oblygiad y bydd yn aros mewn grym ar ôl i'r cytundeb grant derfynu neu ddod i ben.

10.3 Deallwn nad ydych yn atebol, heblaw am farwolaeth nag anaf personol o ganlyniad i esgeulustra, neu am dwyll:

- i unrhyw berson am unrhyw fater sy'n codi mewn perthynas â datblygu, cynllunio, adeiladu, gweithredu, rheoli a gweinyddu unrhyw brosiect unigol, neu
- i ni am unrhyw golled neu ddifrod sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i ni gydymffurfio â'r amodau neu delerau grant safonol hyn.

11 Gwybodaeth

11.1 Derbyniwn y gallwch rannu gwybodaeth am ein grant gydag unrhyw bartïon o'ch dewis yn ogystal â chydag aelodau'r cyhoedd sy'n gwneud cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Gall manylion y prosiect gael eu darlledu ar y teledu, ar eich gwefan, mewn papurau newydd a thrwy gyfryngau eraill.

12 Goruchwylio, dal yn ôl ac ad-dalu'r grant

12.1 Ni fyddwch yn cynyddu'r grant os gwariwn fwy na'r gyllideb a gytunwyd.

12.2 Gallwch atal talu'r grant os ydych am ymchwilio i unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r grant (neu unrhyw grantiau eraill yr ydych wedi'u rhoi i ni). Deallwn nad ydych yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw ganlyniadau, p'un a ydynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sy'n deillio o ddal grant yn ôl hyd yn oed os nad yw'r ymchwiliad yn canfod unrhyw destun pryder.

12.3 Gallwch ddal y grant yn ôl neu fynnu ad-daliad (mewn amgylchiadau o'r fath byddwn yn ad-dalu'n syth) o'r cyfan neu ran ohono'n ôl eich disgresiwn llwyr, mewn unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol os:

- byddwn yn methu â bodloni unrhyw rai o'r amodau a'r telerau hyn;
- ydym wedi llenwi'r ffurflen ymgeisio yn anonest neu i raddau helaeth yn anghywir neu'n gamarweiniol;
- ydym ni, neu unrhyw berson neu sefydliad arall sy'n gweithredu ar ein rhan, wedi rhoi unrhyw wybodaeth sy'n sylweddol gamarweiniol neu anghywir i chi, boed yn fwriadol neu'n ddamweiniol, yn ystod y broses ymgeisio, neu yn ystod cyfnod y cytundeb grant;
- yw aelodau ein corff llywodraethu, ein gwirfoddolwyr neu ein staff wedi gweithredu ar unrhyw adeg yn ystod y prosiect mewn modd anonest neu esgeulus neu mewn unrhyw ffordd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sy'n niweidiol i'n sefydliad ni neu'r prosiect, neu i'ch enw da neu enw da Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- yw ein sefydliad, aelodau ein corff llywodraethu, ein cyflogedigion neu ein gwirfoddolwyr yn destun ymchwiliad neu ymholiad ffurfiol gan yr Heddlu, y Comisiwn Elusennau, Cyllid a Thollau EM neu unrhyw gorff rheoleiddio arall;
- byddwn yn derbyn ariannu dyblyg o unrhyw ffynhonnell arall ar gyfer yr un prosiect neu unrhyw ran o'r prosiect;
- oes, yn eich barn chi, newid sylweddol o ran diben, perchenogaeth neu dderbynnydd, naill ai yn ystod y prosiect neu o fewn cyfnod rhesymol ar ôl ei gwblhau, sy'n golygu eich bod chi'n barnu nad yw'r grant yn debygol o gyflawni'r diben y cafodd ei ddyfarnu ar ei gyfer;
- nad ydym yn rhoi gwybodaeth i chi ar unrhyw adeg o'r broses ymgeisio neu yn ystod cyfnod y cytundeb grant a fyddai'n effeithio ar eich penderfyniad i ddyfarnu, parhau â, neu dynnu'n ôl y cyfan neu ran o'r grant;
- ydym yn anghymwys yn gyfreithlon i ddal y grant neu os bydd ein sefyllfa'n newid fel y bo hynny'n wir;

ac/neu

- os oes gennych sail resymol dros gredu bod hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu arian cyhoeddus.

12.4 Gallwch ddal y grant yn ôl neu fynnu ein bod yn ad-dalu'r grant cyfan neu ran ohono os yw'n debygol y bydd rhaid i ni ddod â'r prosiect i ben, gael ein diddymu neu fynd yn fethdaliadol, neu os ydym yn debygol o fynd i gyflwr o weinyddiad, derbynyddiad neu ddatodiad neu os ydym ar fin gwneud trefniant gyda'n credydwyr neu warantu Gweithred Ymddiriedolaeth iddynt.

12.5 Cydnabyddwn fod y grant yn dod o arian cyhoeddus ac na fyddwn yn defnyddio'r grant mewn ffordd sy'n gyfystyr â Chymorth Gwladol na ellir ei gymeradwyo. Os penderfynir ei fod yn Gymorth Gwladol na ellir ei gymeradwyo, byddwn yn ad-dalu'r grant cyfan yn syth.

13 Aseinio

13.1 Gallwch aseinio unrhyw un o'ch hawliau o dan y cytundeb grant i unrhyw gorff arall neu unrhyw gorff olynol.

13.2 Ni allwn drosglwyddo unrhyw ran o'r grant neu'r cytundeb grant hwn neu unrhyw hawliau oddi tano i sefydliad neu unigolyn arall, oni bai ei fod yn sefydliad partner rydym wedi dechrau cytundeb gydag ef ar ôl i ni gael caniatâd ysgrifenedig gennych.

14 Amodau ychwanegol

14.1 Mae gennych yr hawl i bennu telerau ac amodau ychwanegol ar y grant naill ai yn y llythyr cynnig ac/neu os:

- ydym wedi torri'r cytundeb grant;
- byddwch yn tynnu'n ôl unrhyw ran o'r arian ar gyfer y prosiect;
- byddwch yn barnu bod aelodau ein corff llywodraethu, ein gwirfoddolwyr neu ein staff, neu unrhyw berson neu sefydliad arall sydd â chysylltiad agos â chyflawni'r prosiect yn gweithredu mewn modd a allai gael effaith niweidiol ar y prosiect neu ar eich enw da fel dosbarthwr arian cyhoeddus neu fel corff sy'n cael ei noddi gan y Llywodraeth, neu effaith niweidiol ar y Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol;
- oes gennych sail resymol dros gredu bod hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu arian cyhoeddus; ac/neu
- rydych yn credu bod amodau o'r fath yn angenrheidiol neu'n ddymunol i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflwyno fel a nodir yn ein cais neu gan ddilyn unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt.

15 Newyddiad

15.1 Mae gennych hawl i newyddu eich hawliau a'ch rhwymedigaethau o dan y cytundeb grant neu unrhyw ran ohono i unrhyw awdurdod contractio neu unrhyw gorff arall a fydd yn perfformio i raddau helaeth unrhyw un o'r swyddogaethau a berfformiwyd gennych yn flaenorol, ar yr amod na fydd unrhyw newyddiad o'r fath yn cynyddu baich ein rhwymedigaethau o dan y cytundeb grant.